JONES, ROBERT ISAAC ('Alltud Eifion '; 1815 - 1905), fferyllydd, llenor, ac argraffydd

Enw: Robert Isaac Jones
Ffugenw: Alltud Eifion
Dyddiad geni: 1815
Dyddiad marw: 1905
Priod: Elizabeth Jones (née Hughes)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: fferyllydd, llenor, ac argraffydd
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Meddygaeth; Argraffu a Chyhoeddi; Gwyddoniaeth a Mathemateg
Awdur: William Rowlands

Ganwyd yn Tyddyn Iolyn, Pentrefelin, ger Porthmadog. O du ei fam disgynnai o deulu Dr. Roberts, Isallt, Eifionydd, teulu enwog fel meddygon, a honnai yntau ddawn arbennig fel meddyg pobl ac anifeiliaid. Cafodd addysg yn ardal ei gartref a thua 1831 aeth yn brentis at fferyllydd ym Mhwllheli; bu wedyn yng Nghaernarfon a Llundain. Yn 1838 agorodd fasnach fferyllydd yn Nhremadog, a alwai yn 'Cambrian Pill Depot,' a gwnaeth enw iddo'i hun gyda'r pelenni a hysbysebai fel meddyginiaeth anffaeledig at bob math o anhwylderau dynol.

Cychwynnodd hefyd argraffwasg y tu ôl i'w siop yn Nhremadog, ac argraffodd yno lawer o gyhoeddiadau a llyfrau Cymraeg. Yn Nhachwedd 1858 cyhoeddodd y *Brython* fel newyddiadur wythnosol, ond yn nechrau 1859 cyhoeddodd ef yn gylchgrawn misol; yr oedd D. Silvan Evans yn gyd-olygydd iddo hyd 1860, ond oherwydd diffyg cefnogaeth ni chyhoeddwyd ar ôl 1863.

Yr oedd yn eisteddfodwr selog ac urddwyd ef yn fardd, ' Alltud Eifion,' yn eisteddfod Biwmares, 1832. Ysgrifennodd lawer o gerddi ac englynion ond nid ymberffeithiodd fel bardd. Cyhoeddodd a golygodd *Gwaith Barddonol Sion Wyn o Eifion*, 1861; *Cyff Beuno* (Eben Fardd), 1863; *Cell Meudwy* (Ellis Owen), 1877; *John Ystumllyn*, 1888; *Yr Emynydd Cristionogol*, 1889; *Y Gestiana, sef Hanes Tre'r Gest*, 1892.

Trodd oddi wrth y Methodistiaid at yr Eglwys yn gynnar yn ei oes, a bu'n selog iawn gyda'r Eglwys yn Nhremadog, lle y cadwai ysgol Sul yn neuadd y dref. Efe hefyd oedd golygydd a chyhoeddwr *Baner y Groes*, cylchgrawn misol Eglwysig, ac ysgrifennodd lawer i'r *Haul*, *Y Llan*, a *Cymru (O.M.E.)*.

Bu farw 7 Mawrth 1905, a chladdwyd ef ym mynwent Ynyscynhaearn.

Awdur

William Rowlands

Ffynonellau

Hanes Porthmadog (1913), 140-1

Enwogion Sir Gaernarfon (1922), 205-6

Llenyddiaeth fy Ngwlad (1893), 119

Y Gestiana

Cymru (O.M.E.), lvi, 47

Y Llan, 29 Rhagfyr 1893

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Y Geninen, Mawrth 1907, 35, 54

am ei gysylltiadau teuluol gweler J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 359

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Robert Isaac Jones

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 44085025

Wikidata: Q18535726

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu